

## Rhestr wirio ar gyfer Rheolwr i ddiogelu gweithwyr sy'n cael eu hystyried yn Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol o ran Coronafeirws 19

1. Dylid adolygu'r rhestr o weithwyr a gofnodwyd drwy lythyr yn flaenorol fel rhai Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol (Ni fydd hyn yn cynnwys gweithwyr a oedd ar y rhestr o 17 Awst ymlaen neu weithwyr newydd, bydd y gweithwyr hyn yn cael eu cynghori yn y llythyr gwarchod i drafod y mater â'u cyflogwr ar ôl derbyn y llythyr)
2. Dylid trafod â'r gweithiwr y cyngor gan Lywodraeth Cymru - Canllawiau ar warchod ac amddiffyn pobl <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-warchod-ac-amddiffyn-pobl-ddiffinnir-ar-sail-feddygol-fel-rhai-eithriadol-o-agored-i-html?>
3. Dylid cadarnhau bod gan y gweithiwr gyflwr sy'n ei osod yn y categori Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol:
  - Pobl sydd wedi cael trawsblaniad organ solet
  - Pobl â mathau penodol o ganser:
    - Pobl â chanser sy'n cael cemotherapi gweithredol neu radiotherapi radical ar gyfer canser yr ysgyfaint;
    - Pobl sydd â chanser y gwaed neu fêr esgyrn megis lewcemia, lymffoma neu myeloma sydd ar unrhyw adeg o driniaeth;
    - Pobl sy'n cael imiwnotherapi neu driniaethau gwrthgyrff parhaus eraill ar gyfer canser;
    - Pobl sy'n cael triniaethau canser eraill a dargedir a all effeithio ar y system imiwnedd, fel atalwyr cinas protein neu atalyddion PARP;
    - Pobl sydd wedi cael trawsblaniadau mêr esgyrn neu gelloedd bonyn yn y 6 mis diwethaf, neu sy'n dal i gymryd cyffuriau gwrthimiwnedd
  - Pobl sydd â chyflyrau anadlol difrifol gan gynnwys pob ffibrosis systig, asthma difrifol a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD);
  - Pobl â chlefyd difrifol ar un o'u horganau (er enghraifft, afu, y galon, yr arenau, niwrolegol);
  - Pobl â chlefydau prin a gwallau cynhenid mewn metabolaeth sy'n cynyddu'r risg o heintiau yn sylweddol (fel Imiwnoddiffygiant Difrifol Cyfun (SCID), celloedd crymangell homosygaid);
  - Pobl ar therapïau gwrthimiwnedd sy'n ddigon i gynyddu'r risg o haint yn sylweddol;
  - Oedolion â Syndrom Down;
  - Menywod sy'n feichiog sydd â chlefyd y galon, cynhenid neu a gaffaelwyd.
4. Dylid ceisio canfod a oes modd i'r gweithiwr sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol i weithio gartref, os nad yw hyn yn bosibl, siaradwch â'ch swyddog cyswllt adrannol i weld a oes modd i'r gweithiwr weithio rhywle arall yn eich Adran:
  - Adran y Prif Weithredwr - Nicola Evans [NEvans@sirgar.gov.uk](mailto:NEvans@sirgar.gov.uk)
  - Cymunedau - Silvana Sauro [SSauro@sirgar.gov.uk](mailto:SSauro@sirgar.gov.uk) / Lianne Jones [LiaJones@sirgar.gov.uk](mailto:LiaJones@sirgar.gov.uk)
  - Amgylchedd - Jackie Edwards [JMEdwards@sirgar.gov.uk](mailto:JMEdwards@sirgar.gov.uk) / Carly Thomas [CMThomas@sirgar.gov.uk](mailto:CMThomas@sirgar.gov.uk)
  - Adnoddau Corfforaethol - Alexa Thomas [AleThomas@sirgar.gov.uk](mailto:AleThomas@sirgar.gov.uk)
  - Addysg a Phlant - Nia Thomas [NThomas@sirgar.gov.uk](mailto:NThomas@sirgar.gov.uk) / Allan Carter [ACarter@sirgar.gov.uk](mailto:ACarter@sirgar.gov.uk)

Os nad yw'n ymarferol i'r gweithiwr weithio rhywle arall yn eich adran, cyfeiriwch at yr Hwb Gweithlu o ran canfod cyfleoedd addas: <http://mewnwyd/ein-pobl/canllawiau-coronafeirws/yr-hwb-sgiliau-a-gweithlu/> ;

5. Os bydd gweithiwr Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol yn dweud ei fod yn dymuno parhau i weithio yn ei leoliad gwaith, sicrhewch ei fod yn deall canllawiau Llywodraeth Cymru yn llawn sy'n [cyngori'n gryf](#) ei fod yn gweithio gartref neu os nad yw'r rôl yn ei alluogi i weithio gartref, yna ymgymryd â rôl arall y mae modd ei gwneud gartref. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai y mae eu gwaith yn golygu eu bod mewn cysylltiad rheolaidd neu barhaus â phobl eraill, neu lle mae unigolion yn rhannu gweithle sydd heb ei awyru'n ddigonol am gyfnodau hir. [Ni ddylid rhoi unrhyw bwysau ar y gweithiwr i weithio yn ei leoliad gwaith;](#)
6. Os bydd y gweithiwr yn parhau i fynegi ei ddymuniad i weithio o'i leoliad gwaith, fel cyflogwr rhaid i ni barchu penderfyniad y gweithiwr. Fodd bynnag, cyn caniatáu'r cais hwn, yn y lle cyntaf, ewch drwy'r asesiad risg covid unigol/systemau gwaith diogel gyda'r gweithiwr a gofynnwch am gyngor gan Iechyd Galwedigaethol, os yw'r asesiad risg yn dangos bod hyn yn briodol. Nodwch ddymuniadau'r gweithiwr ar yr asesiad risg a nodi ei fod wedi cael gwybodaeth lawn am ganllawiau Llywodraeth Cymru <http://mewnwyd/ein-pobl/canllawiau-coronafeirws/arferion-gweithion-ddiogel-yn-ystod-covid-19/asesiad-risg-unigol/>
7. Nid yw cyngor Llywodraeth Cymru o ran gwarchod yn ymestyn i'r rhai sy'n perthyn i'r categori sy'n agored i niwed yn glinigol. Gweler y rhestr yma: <https://llyw.cymru/unigolion-sydd-mewn-mwy-o-beryl-or-coronafeirws> neu'r gweithwyr hynny sy'n 'byw gyda' gweithwyr sy'n Eithriadol o Agored i Niwed yn Glinigol. Cyngorir y gweithwyr hyn i barhau i ddilyn canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gadw pellter cymdeithasol a chadw at asesiadau risg a systemau gwaith diogel: <https://llyw.cymru/coronafeirws-cadw-pellter-cymdeithasol>
8. Os yw gweithiwr yn credu bod rhesymau clinigol pam y dylid ei ychwanegu at y Rhestr Gwarchod Cleifion, dylech gyngori'r gweithiwr i drafod hyn â'i feddyg teulu neu glinigydd yn yr ysbyty. Gallant ychwanegu pobl at y rhestr o gleifion sy'n gwarchod eu hunain os yw'n glinigol briodol gwneud hynny.